## P-06-1320 Dyrannu cyllid ychwanegol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i sicrhau ei fod yn gynaliadwy

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mark Fisher, ar ôl casglu cyfanswm o 1,893 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Bydd cynaliadwyedd y gwasanaethau llywodraeth leol sy'n cael eu darparu ledled Castell-nedd Port Talbot yn cael ei herio'n sylweddol os na ddarperir cyllid ychwanegol gan y Llywodraeth. Mae effaith barhaus Covid-19 a'r rhyfel yn Wcráin yn creu galw digynsail ar wasanaethau'r cyngor sydd eisoes dan straen. Rydym yn amcangyfrif diffyg o £5 miliwn ar gyfer 2022-23 ac £20 miliwn pellach ar gyfer 2023-24. Mae ein cymunedau'n cael trafferth ymdopi â'r argyfwng costau byw ac mae'n rhaid osgoi unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae angen digon o adnoddau ychwanegol arnom i'r Cyngor allu parhau i gefnogi ein cymunedau drwy'r argyfyngau hyn, cynnal y gwasanaethau hanfodol y mae pobl yn dibynnu arnynt a sicrhau gwelliannau tymor hir i les amgylcheddol, diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd ein trigolion. Heb yr arian hwn, yr unig ddewis arall yw torri swyddi a gwasanaethau, gan danseilio atebolrwydd democrataidd os collir gwasanaethau i'r sector preifat neu'r trydydd sector a disbyddu cronfeydd wrth gefn. Ar ôl dros ddegawd o fesurau cyni, nid oes opsiynau meddal ar ôl. Bydd addysg ein plant a'n pobl ifanc, gofal a chefnogaeth i blant a phobl agored i niwed (gan gynnwys rhai sy'n ddigartref, ffoaduriaid neu geiswyr lloches), cynnal a chadw tir y cyhoedd a gwasanaethau ehangach y Cyngor yn cael eu diraddio. Bydd telerau ac amodau llywodraeth leol yn disgyn ymhellach y tu ôl i gymaryddion y sector cyhoeddus a'r sector preifat sy'n dwysáu'r heriau o ddarparu adnoddau i'n sefydliad mewn marchnad lafur hynod gystadleuol.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Aberafan

- Gorllewin De Cymru